# GWASANAETHAU CYNLLUNIO, ADFYWIO A RHEOLAETHOL

## TÎM DATBLYGU RHEOLI A CHYDYMFFURFIAD

## PROTOCOL AR GYFER HYFFORDDI A DATBLYGU AELODAU AR FATERION CYNLLUNIO

Cafodd y protocol ei gymeradwyo'n gyntaf gan y Cyngor Llawn ar 8 Ebrill 2008 i sicrhau fod yr Aelodau wedi derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y prosesau a'r gweithdrefnau a ddefnyddir yn y system Cynllunio a hefyd i gyflwyno gwybodaeth i'r Aelodau ynghylch unrhyw newidiadau perthnasol mewn deddfwriaeth.

---

1. Bydd pob Aelod o'r Cyngor Sir yn cael ei annog i fynychu sesiynau hyfforddi a datblygu ar faterion cynllunio.

2. I hyrwyddo hyn, bydd Swyddogion yn trefnu o leiaf 4 o ddigwyddiadau hyfforddi / datblygu ym mhob blwyddyn Cyngor (Mai i Ebrill).

3. Mewn blynyddoedd pan gynhelir etholiadau i'r Cyngor, bydd Swyddogion yn trefnu o leiaf 6 digwyddiad hyfforddi / datblygu. Cynhelir y ddau ddigwyddiad cyntaf bob tro cyn cyfarfod cyntaf pwyllgor cynllunio'r Cyngor newydd.

4. Gofynnir i bob Aelod newydd ei h / ethol i fynychu'r ddau ddigwyddiad hyfforddiant cychwynnol a drefnir ar ôl dechrau'r Cyngor newydd a chyn cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Cynllunio yn y flwyddyn Gyngor newydd.

5. Gall Aelodau sydd wedi'u hail ethol ond heb fynychu digon o ddigwyddiadau datblygu yn y flwyddyn gyngor flaenorol fynychu'r ddau ddigwyddiad a nodir ym mharagraff 4 uchod.

6. Ym mhob blwyddyn Gyngor ddilynol (Mai i Ebrill), gofynnir i bob Aelod fynychu o leiaf ddau ddigwyddiad hyfforddi / datblygu.

7. Bydd yn rhaid i Aelodau nad ydynt wedi mynychu'r hyfforddiant a drefnir gan Swyddogion, gyflwyno'u cynigion amgen ar gyfer hyfforddi i Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheolaethol neu i'r Rheolwr Datblygu Rheoli a Chydymffurfio. Gallai dulliau eraill o hyfforddiant gynnwys:-

   (i) Bod yn bresennol mewn digwyddiad a drefnir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Awdurdod lleol arall neu ddarparydd allanol.
   (ii) Dysgu o bell drwy ddefnyddio gwefan cynllunio gymeradwy.

(iii) Bod â rhan uniongyrchol mewn apeliadau cynllunio a / neu gynigion cynllunio lle mae'r Aelod wedi dangos dealltwriaeth o faterion cynllunio gyda chytundeb y Rheolwr Datblygu Rheoli a Chydymffurfiad.

8. Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheolaethol yn monitro presenoldeb Aelodau mewn digwyddiadau hyfforddi ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol bob chwe mis. Fel arfer bydd yr adroddiadau ar ddiwedd blwyddyn y Cyngor (Mawrth / Ebrill) ac ar ôl chwe mis o flwyddyn y Cyngor (Tachwedd / Rhagfyr).

9. Cyn y ddau ddigwyddiad hyfforddi olaf mewn unrhyw un flwyddyn Gyngor, anfonir llythyrau at Arweinwyr y Grwpiau yn dangos nifer y digwyddiadau y dylai eu haelodau fod wedi eu mynychu am y flwyddyn honno, gyda nodyn atgoffa o'r protocol a gytunwyd ac yn dangos y digwyddiadau hyfforddi sydd i ddod.

10. Bydd yn rhaid i Aelodau fod wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol am y flwyddyn Gyngor erbyn 30 Ebrill mewn unrhyw un flwyddyn. Bydd aelodau na fydd wedi cyflawni'r hyfforddiant gofynnol erbyn y dyddiad yma'n gallu trafod materion cynllunio ond yn cael eu gwahardd rhag pleidleisio ar unrhyw fater mewn perthynas â chynllunio mewn Pwyllgorau Cynllunio a'r Cyngor Llawn yn ystod y flwyddyn Gyngor ddilynol, oni bai

a) Eu bod yn Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn y flwyddyn Gyngor flaenorol ac wedi mynychu o leiaf 8 cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio yn y flwyddyn honno ac wedi mynychu hefyd o leiaf 1 digwyddiad hyfforddi / datblygu.

b) Eu bod wedi mynychu dau ddigwyddiad wedi'u trefnu gan swyddogion yn y flwyddyn Gyngor bresennol.

c) Eu bod wedi cael caniatâd i bleidleisio mewn Pwyllgorau Cynllunio a Chyngor Llawn gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a Phennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheolaethol.

**Noder:**
Nid bwriad y protocol yma yw atal Aelodau rhag pleidleisio ar faterion Cynllunio mewn Pwyllgor Cynllunio a / neu Gyngor Llawn. Diben y protocol yw rhoi'r cyfleoedd hyfforddi / datblygu priodol i'r Aelodau.

Hysbysir yr Aelodau hynny nad ydynt yn cyfarfod â meini prawf hyfforddi / datblygu'r protocol cyn pob cyfarfod perthnasol a fe'u cynghorir / gofynnir iddynt beidio â phleidleisio ar faterion Cynllunio.

Mater i bob Aelod unigol yw dewis pleidleisio ai peidio o dan amgylchiadau o'r fath, ond os bydd Aelod yn pleidleisio mae'n bosibl y bydd y swyddogion yn hysbysu'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a / neu'r Pwyllgor Safonau. Mae'n bosibl hefyd y bydd trydydd parti yn eu riportio i'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol.

| | |
|---|---|
| Awdur: Paul Mead | Dyddiad : Ebrill 2012 |
| Cyswllt: Judith Williams | Fersiwn: 2 |
| | Dyddiad i'w adolygu: Ionawr 2016 |
| | |